Pob swydd
Pob cwrs
Pob campws

Ni Bia'
Addysg
Uwch.

Ymunwch â'n hymgyrch i sicrhau dyfodol addysg ôl-16.

Mae'r system addysg ôl-16 wedi torri. Mae addysgwyr yn cael eu gorfodi i adael oherwydd cyflogau sy'n gostwng a chostau byw cynyddol – tra bo myfyrwyr yn talu'r pris mewn dyled. Mae llywodraethau olynol wedi methu gweithredu. Mae UCU yn galw am system addysg ôl-16 hygyrch, wedi'i hariannu yn llawn ac sydd wedi'i hadeiladu gyda staff a myfyrwyr. *Ni Bia' Addysg* – mae'n eiddo i bob un ohonom, ac mae'n rhaid i ni ymladd i'w diogelu.

Ymunwch â'r ymgyrch, drwy fynd i educationitsours.org.uk

ucu
University and College Union

Pam y dylech ymuno ag ymgyrch *Ni Bia' Addysg*?

Mae system addysg sydd wedi torri yn perygluein dyfodol, yn cipio cyfleoedd oddi wrth bobl ifanc, ac yn tanseilio'r cymunedau a'r economïau sy'n dibynnu arni. Ond nid oes rhaid i bethau fod fel hyn.

Dychmygwch wlad lle mae addysg ôl-16 yn cael ei hariannu a'i diogelu'n briodol, lle gall staff drosglwyddo sgiliau a helpu i ddarganfod atebion i'r heriau mwyaf sy'n wynebu ein cymdeithas. Bydd ein methiant i weithredu yn atseinio am genedlaethau, felly ymunwch â'n hymgyrch.

Yr hyn y mae'r ymgyrch hon yn anelu ato:

- **Cyllid ychwanegol ar unwaith ar gyfer addysg uwch.**
- **Diogelwch ar gyfer swyddi, cyflogau a phensiynau mewn prifysgolion.**
- **Ymrwymiad i drawsnewid y model ariannu hirdymor.**
- **Dull tecach o ymdrin â myfyrwyr rhyngwladol.**
- **Trefniadau cryfach ar gyfer llywodraethu'r sector.**

Ymunwch â'r ymgyrch, drwy fynd i educationitsours.org.uk

Pam ymuno ag UCU?

Ymuno ag undeb yw'r ffordd fwyaf effeithiol i weithwyr sicrhau newid. Mae Undeb y Prifysgolion a'r Colegau yn cynrychioli'r holl staff, boed yn amser llawn neu dan gontract, ar draws prifysgolion, colegau, carchardai, sefydliadau hyfforddiant ac addysg oedolion ledled y DU.

Dewch yn **aelod o UCU** drwy fynd i **ucu.org.uk/join**

Ni Bia' Addysg

UCU University and College Union

ucu.campaigns ucunion ucu ucu.org.uk educationitsours.org.uk

Cynhyrchwyd gan Undeb y Prifysgolion a'r Colegau, Carlow Street, London NW1 7LH 2026